Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 46 – 1 GORFFENNAF 2010

Mae'n anodd credu bod mis Gorffennaf wedi cyrraedd, a hanner y flwyddyn wedi mynd heibio'n barod. Yn ôl yr arfer, bydd pethau'n tawelu yma dros yr wythnosau nesaf ond mae yma rai digwyddiadau ymlaen sy'n werth tynnu sylw atynt.

PARTI MERCHED Y GAIMAN PATAGONIA
7.30, Nos Sadwrn, 17 Gorffennaf
Cyngerdd gyda Pharti Merched y Gaiman Patagonia a'r unawdwyr Billy Hughes a Marcelo Griffiths, gydag Edith MacDonald yn arwain a Hector MacDonald yn cyfeilio. Llywydd: Dr Meredydd Evans. Mynediad: £5 wrth y drws – plant am ddim. Noddir y noson gan *Pobl Mewn Partneriaeth Aberystwyth-Esquel* a bydd elw'r noson yn mynd tuag at gostau taith y côr yng Nghymru.

THE REMNANTS OF ONCE FINE GIRLS
Nos Fawrth, 3 Awst (amser i'w gadarnhau)
Louche Theatre, o ardal Aberystwyth, yn cyflwyno'r ddrama hon gan Stephen Todd sy'n adrodd stori Sarah – bydwraig gyda'r elusen *Médecins Sans Frontières* yn Darfur – a'r effaith a gaiff marwolaeth drychinebus arni. Perfformiwyd y ddrama gyntaf yn Aberystwyth ym Mai 2009 ac, ar ôl y perfformiad hwn yn y Morlan, bydd Louche Theatre yn mynd â hi i Wŷl Caeredin. Elw'r noson i *Médecins Sans Frontières*.

Digwyddiadau rheolaidd yw'r digwyddiadau eraill sy'n cymryd lle yma dros yr wythnosau nesaf:

BORE COFFI
10.00-1.00, bore Sadwrn, 3 Gorff.
Bore coffi misol a drefnir gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar Sadwrn cyntaf bob mis. Cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen! Croeso i bawb.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 8 Gorffennaf
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

CYFLWYNIAD I FWDHAETH NICHIREN DAISHONIN
7.30-9.00, nos Fercher, 14 Gorffennaf
Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn y Morlan ar ail nos Fercher bob mis, ac yn rhoi cyflwyniad i gysyniadau ac arferion y math Bwdhaeth Nichiren Daishonin. Ceir hefyd gyfle i glywed a rhoi cynnig ar lafarganu, gofyn cwestiynau a dysgu mwy. Mae'r cyfarfodydd yn anffurfiol, yn gyfeillgar ac yn rhad ac am ddim – croeso i bawb. Manylion pellach: Martine (07773-589113) neu Caroline (01570-470255).

A chynhwysir hefyd fanylion dau ddigwyddiad arall (nad ydynt yn cymryd lle yn y Morlan) a allai fod o ddiddordeb:

DIWEDD Y BYD
Capel Siloam, Cwmystwyth
7.30, nos Fercher, 14 Gorffennaf
Theatr Troed y Rhiw yn cyflwyno sioe sy'n cofnodi diddymu cymdogaeth Gymraeg Mynydd Epynt 70 mlynedd yn ôl i haf eleni. Roedd yr Epynt yn gartref i gymuned o 220 o bobl a'u ffermydd, a'u hunig fan cyfarfod ffurfiol oedd Capel y Babell ble fyddent yn canu, gweddïo, dathlu a chwerthin gyda'i gilydd – ac weithiau'n crio a ffraeo gyda'i gilydd hefyd. Newidiodd hyn pan orfodwyd y gymuned gyfan i adael gan gau'r ysgol gynradd, y capel a'r dafarn er mwyn i Swyddfa'r Rhyfel droi'r ardal yn Ardal Hyfforddi. Mae'r cynhyrchiad hwn (a berfformir mewn capeli yn unig) ar daith yn ystod Mehefin a Gorffennaf. Mynediad: £4 wrth y drws. Elw at Gapel Siloam.

SGWRS AM SELIAU GAN DR DAVID H. WILLIAMS
Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
11.00, bore Sadwrn, 24 Gorffennaf
Mae'r seliau mynachaidd ac eglwysig fydd yn destun y sgwrs hon yn rhychwantu canrifoedd o'n hanes ac yn rhan o gasgliadau eang y Llyfrgell Genedlaethol. Saesneg fydd iaith y sgwrs, a bydd rhai o'r seliau i'w gweld ar y diwrnod. Mynediad am ddim drwy docyn (gellir archebu tocyn trwy ffonio siop y Llyfrgell: 01970-632548).

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr